

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU CWSMERIAID,  
PERFFORMIAD, ADNODDAU A'R DREFN LYWODRAETHOL A GYNHALIWYD  
YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, WRECSAM AR DYDD MERCHER, 24  
GORFFENNAF 2019**

**AELODAU**

Y Cynghorydd Carrie Harper, Cadeirydd  
Y Cynghorydd Adrienne Jeorrett, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Bryan Apsley	Y Cynghorydd	M G Morris
"	Trevor Bates	"	John Pritchard
"	* Sonia Benbow-Jones	"	* Paul Roberts
"	Dana Davies	"	Paul Rogers
"	Mike Davies	"	Barrie Warburton
"	Geoff Lowe		

\*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Mark Pritchard

**8 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Paul Rogers a Sonia Benbow-Jones.

**9 CADARNHAU COFNODION**

**CYTUNWYD – Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019 fel cofnod cywir a'u llofnodi.**

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR FFRAMWAITH LLYWODRAETHU IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Drefnu, Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (COFI/60/19S) i roi cyfle i'r Aelodau benderfynu a oedd "Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch" y Cyngor wedi'i weithredu'n effeithiol yn ystod 2018/19 gan gynnwys ystyried Crynodeb Gweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch eu harchwiliad o Bolisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.

Roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cwblhau archwiliad o'r systemau rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor i asesu pa mor dda y mae iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli. Arolygodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn erbyn ei bolisi Iechyd a Diogelwch yn ogystal ag ymyrraeth wedi'i thargedu ar reolaeth dirgryniad.

Roedd yr archwiliad, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Cyngor, yn dilyn erlyniad llwyddiannus yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r Cyngor ym mis Hydref 2017 am fethu asesu a rheoli'r risgiau i iechyd gweithwyr o ganlyniad i

ddirgryniad.

Yn eu hadroddiad, roedd Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cydnabod datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr o'u hymrwymiad cryf i wella perfformiad iechyd a diogelwch, ynghyd â'r adnoddau a'r ymdrech i roi newidiadau ar waith a oedd eisoes ar y gweill.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch - Adroddiad Blynyddol 2018/19 (Atodiad 1) yn caniatáu i Aelodau asesu p'un a yw'r Fframwaith wedi bod yn effeithiol, ynghyd â'r adroddiad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch diweddaraf a nododd nifer o doriadau materol o gyfraith iechyd a diogelwch.

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar lywodraethu a mecanweithiau a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion perthnasol a nodwyd yn adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Polisi Iechyd a Diogelwch.

Wedi hynny, anerchodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor a chydnabod bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi nodi rhai tramgwyddau â chyfraith iechyd a diogelwch ond roeddent hefyd yn cydnabod ymrwymiad cadarn y Cyngor i wella perfformiad iechyd a diogelwch gan gynnwys nifer o gamau cadarnhaol a roddwyd ar waith i gryfhau System Rheoli Diogelwch y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cymryd y camau cywir i wella perfformiad ond roedd yn rhaid iddo barhau i sicrhau ffocws parhaol ar sefydlu'r diwylliant iechyd a diogelwch angenrheidiol ar draws y sefydliad.

Roedd y Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol yn gwbl ymrwymedig i wella perfformiad iechyd a diogelwch drwy arweinyddiaeth gref a gwella ymgynghoriad gyda gweithwyr. Yn ddiweddar, bu i dros 600 aelod o staff fynychu'r sesiwn frifio i weithwyr "Ymlaen Gyda'n Gilydd" gan y Prif Weithredwr ac roedd hyn yn arwydd cadarnhaol bod ymgynghori â'r gweithwyr yn cael ei ystyried o ddiari. Roedd Swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr yr Undeb Llafur i drafod adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac roedd cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu gan fod pwysigrwydd cefnogaeth yr Undeb Llafur i gryfhau'r diwylliant iechyd a diogelwch yn y Cyngor yn cael ei gydnabod. Y nod oedd cynnwys y Diwylliant Iechyd a Diogelwch ymhellach yn y sefydliad.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion. Mewn trafodaeth amlygwyd y materion canlynol:

- Nodwyd bod y diagram Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch ar dudalen 25 Atodiad 1 yn rhy gymhleth a gofynnwyd iddo gael ei resymoli. Dywedodd swyddogion fod y fframwaith, yn ei gyflwr presennol, yn dangos yr holl ryngweithio i helpu i sicrhau bod y rhain yn cael eu huno'n effeithiol.
- Cadarnhaodd Swyddogion y bu cyfathrebu gydag awdurdodau eraill o ran Iechyd a Diogelwch i ystyried arfer orau, ac roedd y dull a fabwysiadwyd wedi ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Tynnodd Aelod sylw at fater iechyd a diogelwch a godwyd mewn perthynas â'r bar ym maes parcio Neuadd y Dref. Roedd hwn bellach wedi cael ei asesu ac yn y broses o gael ei gywiro.
- Codwyd pryder ynghylch gwaith monitro effeithiolrwydd iechyd a Diogelwch.

Mae'r tabl ym mhwynt 10.2 yn adrodd canlyniadau cyfnod o bedair blynedd, heb unrhyw newidiadau sylweddol yn nifer y digwyddiadau a fu bron â digwydd, mân ddigwyddiadau a digwyddiadau hysbys

- Roedd angen newid o ran diwylliant gyda chyfranogiad Adnoddau Dynol, ynghyd â hyrwyddiad parhaus o bwysigrwydd adrodd am ddigwyddiadau a fu bron â digwydd ymhlith staff. Roedd system adrodd am ddigwyddiadau a fu bron â digwydd ar-lein yn cael ei datblygu, wedi'i hategu gan linell ffôn ynghyd â blychau adrodd ar gyfer y staff hynny nad oedd ganddynt fynediad at TG.
- Byddai'r DPA yn sicrhau atebolrwydd ar draws y sefydliad a byddai Prif Swyddogion yn cymryd perchnogaeth o'u meysydd o ran adrodd am iechyd a diogelwch.  
Byddai disgrifiadau swydd yn cael eu diweddarau i gynnwys cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.
- Byddai Cofrestrau Peryglon wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Awst 2019 ac yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro parhaus ar ôl y dyddiad hwnnw.
- Er mwyn llwyddo o ran newid diwylliant, rhaid deall rolau a chyfrifoldebau a chynnal sesiynau hyfforddiant.  
Nid oedd e-ddysgu bob amser yn cael ei ystyried i fod mor effeithiol â darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd yn bwysig cynnwys staff ar bob lefel yn y broses o ddatblygu diwylliant "teg".
- Byddai Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor hefyd yn cynnal ymweliadau safleoedd arweinyddiaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y newid i'r diwylliant yn cael ei ymgorffori.
- Roedd Iechyd a Diogelwch yn flaenoriaeth uchel yn y Cyngor a byddai adnoddau perthnasol i'w cael pe bai angen.
- Roedd cyfrifoldebau a phrosesau diffiniedig i weithwyr a chontractwyr ar gael mewn perthynas ag adrodd am ddigwyddiadau a fu bron â digwydd.  
Roedd hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu i staff a oedd yn gyfrifol am reoli contractwyr.
- Roedd y Prif Weithredwr yn cael gwybod am ddigwyddiadau proffil uchel/difrifol wrth iddyn nhw ddigwydd.  
Roedd hyn yn wahanol i'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad, a oedd yn ymwneud â phryderon nad oedd materion yn cael eu trin.
- Byddai'r tabl Dadansoddiad o'r Holl Ddigwyddiadau yn dadansoddi peryglon yn flynyddol, nid cyfanswm wedi ei gyfuno.  
Dylai'r broses adrodd am ddigwyddiadau yn y dyfodol hefyd restru cyfanswm y staff ym mhob Adran.
- Heriodd Aelodau Atodiad 2A a oedd yn rhoi manylion am y Gofrestr Risg a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.  
Yn benodol, roedd y cyfeiriad risg ar gyfer nifer o risgiau ar duedd ar i lawr a oedd fel petai'n gwrthwynebu adroddiad diweddar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Cadarnhaodd swyddogion fod fersiwn newydd o'r Gofrestr risg Iechyd a Diogelwch yn cael ei chymeradwyo ar hyn o bryd.
- Bydd Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch 19/20 yn cael ei weithredu'n effeithiol gyda'r holl gamau yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn 30 Mehefin 2020. Gofynnodd yr aelodau am adroddiad ar y camau gweithredu hynny yn rheolaidd.
- Roedd Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau Llafur yn chwarae rhan weithredol

- o fewn adrannau.
- Byddai lechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnal archwiliadau "profion dip" i weld a oedd risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol. Byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
  - Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn ond byddai'r adnoddau'n canolbwyntio ar bryderon. Cydnabuwyd ymrwymiad y Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol i wella perfformiad lechyd a Diogelwch.

#### **CYTUNWYD -**

- (i) Ystyried diweddariad ar ddatblygiad y fframwaith llywodraethu a'i effeithiolrwydd parhaus, mewn chwe mis.**
- (ii) Bod yr adroddiad hwn yn pwysleisio cynnydd y cynllun Gweithredu lechyd a Diogelwch Corfforaethol (pwyntiau 1-3 yn unig) mewn ymateb i'r crynodeb o'r camau gweithredu (tudalen 14-35 yr adroddiad).**

Y Cyngorydd Carrie Harper  
Cadeirydd